# *Golygyddol: Ymchwil addysg yng Nghymru, o Gymru, ac i Gymru*

YR ATHRO GARY BEAUCHAMP,
YR ATHRO ENLLI THOMAS A'R ATHRO TOM CRICK

Fel golygyddion, ein gweledigaeth oedd y byddai'r cylchgrawn yn cynnwys 'ymchwil leol a rhyngwladol sy'n rhoi cipolwg ar lunio polisi ac arferion addysg yng Nghymru' (Beauchamp, Thomas a Crick, 2021, t. 6). Mae'r rhifyn hwn o'r cylchgrawn yn canolbwyntio ar ymchwil 'leol' sy'n archwilio addysg *yng* Nghymru, ac, yn y rhifyn hwn, *o* Gymru. Mae'n adlewyrchu'r cydweithio cynyddol o ran ymchwil rhwng prifysgolion yng Nghymru, gan gynnig safbwyntiau ar bob cam o addysgu, hyd at Addysg Gychwynnol Athrawon yn y brifysgol. Mae cydweithredu llwyddiannus o'r fath yn cefnogi'r awgrym bod 'capasiti, ansawdd a chyfanswm yr ymchwil yn debygol o gael eu gwella drwy weithgarwch cydweithredol mewn gwlad fach sydd â nifer gymharol fawr o sefydliadau addysg uwch' (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod y cydweithrediad hwn yn ymestyn y tu hwnt i agwedd a allai fod yn ynysig i gynnwys cyfranogi mewn safbwyntiau ymchwil rhyngwladol, a dysgu ganddynt. Er gwaethaf ei heriau, llwyddodd y pandemig diweddar, trwy reidrwydd, i wella sgiliau digidol staff y brifysgol i ganiatáu mwy o ddeialog a sgyrsiau arwyddocaol (Beauchamp et al., 2022) am ymchwil. Rydym yn gobeithio bod ymchwilwyr rhyngwladol yn cymryd rhan mewn sgyrsiau o'r fath ac yn ystyried *Cylchgrawn Addysg Cymru* fel lle i rannu eu gwaith ymchwil.

Wrth lunio'r rhifyn hwn, gyda chefnogaeth Gwasg Prifysgol Cymru, rydym wedi rhoi system gyflwyno ar-lein newydd ar waith am y tro cyntaf, gan ddilyn erthyglau o'u cyflwyno y tro cyntaf, trwy adolygiad dwbl-ddall gan gymheiriaid a diwygiadau awduron i gyhoeddi Mynediad Agored platinwm yn y Gymraeg a'r Saesneg. Credwn fod hwn yn gam pwysig i foderneiddio a symleiddio'r broses gyflwyno fel bod y cylchgrawn yn efelychu cylchgronau eraill yn y maes. Mae'r system hon yn cael ei defnyddio bellach yn ffrwd Ymarferwyr y cylchgrawn hefyd, ar gyfer

*https://doi.org/10.16922/wje.24.2.1cym*

ymarferwyr sy'n ymchwilio ac ymholi ar draws gwahanol ddimensiynau ymarfer addysgol. Bydd erthyglau ar-lein cyntaf y ffrwd ymarferwyr hon ar gael yn ddwyieithog ar wefan y cylchgrawn yn fuan, a chredwn y bydd llawer mwy yn dilyn. Rydym o'r farn y bydd y synergedd hwn rhwng ymchwil mewn prifysgolion ac mewn ysgolion yn ein helpu i fynd y tu hwnt i'r syniad hollbresennol ond gor-syml o geisio 'pontio' bwlch, neu rwyg, rhwng ymchwil ac ymarfer a symud i sefyllfa lle mae'n 'possible instead to think of both educational research and teaching as forms of inquisitive practice, and share some core attributes, in particular the systematic flexing of inquisitive thought and language; the reflective use of tools; and the considerate exercise of professional virtues' (Oancea et al., 2021, t. 116).

Mae'r rhifyn hwn o'r cylchgrawn yn cynnig ystyriaeth chwilfrydig o addysg yng Nghymru o'i ddyddiau cynharaf hyd heddiw. Mae Beauchamp a Breeze yn ystyried sut y gallwn ddysgu o orffennol defnyddiadwy ym maes addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd. Mae'n darparu naratif hanesyddol o ddyddiau cynharaf addysg yng Nghymru, gan olrhain y cyfleoedd niferus a gollwyd, mewn deddfwriaeth ac addysg athrawon, i ganiatáu i athrawon cynradd ddefnyddio sgiliau cerddorol eraill tu hwnt i'r patrwm perfformio er mwyn datblygu addysgeg effeithiol. Mae'r naratif hanesyddol hwn yn bwysig oherwydd, er bod gan Gymru hanes hir a balch a'i hiaith ei hun, am dros bum canrif a hanner (o'r 1530au hyd 1999) roedd yn cael ei gweinyddu'n uniongyrchol gan Lundain (Furlong et al., 2021, t. 62). Roedd yr hanes hir a balch hwn yn cynnwys gwerth mawr ar gerddoriaeth, i'r graddau fod cerddoriaeth yn cael ei hystyried yn drydedd iaith Cymru. Gyda dyfodiad y Cwricwlwm Cenedlaethol cyntaf fel rhan o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, roedd modd i Gymru wneud newidiadau i gynnwys y cwricwlwm cerddoriaeth er mwyn sicrhau bod cyfansoddi ac arfarnu (defnyddio iaith gerddorol i drafod cerddoriaeth) yn cael yr un pwyslais â pherfformio wrth addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion. Nid tan i ddatganoli ddigwydd, fodd bynnag, y digwyddodd y pwynt gwirioneddol drawsnewidiol posibl a allai ganiatáu i athrawon cynradd yng Nghymru ddefnyddio'u sgiliau cyfansoddi ac arfarnu eu hunain i ddatblygu addysgeg effeithiol. Wrth i Gymru fabwysiadu cwricwlwm newydd, y casgliad yw mai dyma bwynt trawsnewidiol arall ym maes addysgu cerddoriaeth, na ddylid ei golli i sicrhau bod disgyblion yn derbyn 'profiad eang ac ymarferol o bopeth y gall addysgu cerddoriaeth ei gynnig i ddisgyblion trwy fanteisio ar addysgeg addysgu sy'n disodli'r patrwm perfformio hanesyddol'.

Mae Goodall et al. yn cyflwyno canlyniadau astudiaeth gydweithredol a oedd yn archwilio'r gwerth a roddwyd ar ymgysylltiad rhieni mewn addysg plant yn deillio o brofiadau'r cyfnodau clo yn ystod y pandemig Covid-19. Yn benodol, mae'r papur yn cyflwyno cyfres o fyfyrdodau lleoledig cyfoethog ar brofiadau'r rhai a fu'n ymwneud ag Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru yn ystod y cyfnodau clo, ym mhrofiad darparwyr AGA, athrawon dan hyfforddiant, rhanddeiliaid a rhieni. Er bod ymgysylltiad rhieni yn cael ei ystyried yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi gan yr holl randdeiliaid, datgelodd y canlyniadau bod diffyg ymarfer cyson o ran sut yr oedd ymgysylltiad rhieni'n cael ei ddiffinio a'i weithredu yn y ddarpariaeth AGA ledled Cymru. Mae goblygiadau eu canfyddiadau i ymarfer AGA yn cael eu trafod.

Mae Thomas et al. yn archwilio rhai o'r materion sy'n ymwneud ag asesiad teg a chyfartal o alluoedd iaith plant dwyieithog o'i gymharu â phlant uniaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar lythrennedd. Mae ieithoedd yn gwahaniaethu'n eithaf sylweddol o ran dyfnder eu horgraff, gyda'r Saesneg ymhlith y mwyaf anhryloyw o ran cyfatebiaeth graffemau a ffonemau. Mae gan y Gymraeg, ar y llaw arall, orgraff gymharol dryloyw sy'n hwyluso dehongli'r cysylltiadau rhwng ffurf a seiniau. Er bod nifer o adnoddau asesu i fesur gwahanol agweddau ar alluoedd llythrennedd plant yn y Saesneg, ychydig iawn sydd ar gael ar gyfer ieithoedd eraill, megis y Gymraeg. Lle mae profion yn bodoli, maen nhw'n addasiad o brofion ar gyfer y Saesneg yn aml, sy'n cael eu seilio ar siaradwyr uniaith fel arfer. Mae'r profion hyn yn cael eu creu'n bwrpasol er mwyn asesu ymateb plant i eiriau ac ymadroddion sy'n arbennig o broblemus i iaith gydag orgraff anhryloyw. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad iddynt archwilio ymddygiadau ieithyddol plant wrth ddysgu ieithoedd ag orgraff dryloyw. Mae'n ddigon posib y bydd profion sydd ar gael i'w defnyddio yn y Gymraeg yn cuddio presenoldeb trafferthion llythrennedd sylfaenol os yw'r profion hynny'n seiliedig ar brofion a gafodd eu creu ar gyfer asesu galluoedd yn y Saesneg. Yn y papur hwn, mae'r awduron yn archwilio'r problemau sydd ynghlwm wrth addasu/cyfieithu profion wrth asesu plant dwyieithog. Maen nhw'n dadlau dros ddatblygu dulliau mwy cyfannol o archwilio anawsterau posibl mewn ieithoedd ag orgraff dryloyw, gan ddefnyddio profion sy'n ystyried materion penodol i iaith ac sydd wedi eu seilio ar samplau dwyieithog priodol. Maen nhw'n awgrymu bod angen mwy o hyfforddiant er mwyn hybu ymwybyddiaeth athrawon o'r materion hyn, ac i helpu i sicrhau asesiadau cynnar a phriodol o anawsterau llythrennedd ar gyfer plant dwyieithog Cymraeg a Saesneg.

Mae Jones et al. yn ystyried gweithredu mentora deialogaidd yn rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CaBan yng Nghymru. Gan ddefnyddio data o holiaduron a chyfweliadau grŵp gyda mentoriaid ac Athrawon Cyswllt ar y rhaglen, maen nhw'n amlinellu ail-lunio'r berthynas rhwng y naill a'r llall. Maen nhw'n dadlau bod partneriaeth newydd, fwy democrataidd, wedi dod i'r amlwg sy'n grymuso Athrawon Cyswllt i herio agweddau ar ymarfer ac archwilio gweithredoedd mwy creadigol. Fodd bynnag, maen nhw'n tynnu sylw at y ffaith bod tensiynau ynghlwm wrth y berthynas newydd hon sy'n gallu arwain at berthynas gymdeithasol fwy cymhleth wrth i fentoriaid ac Athrawon Cyswllt drafod anesmwythyd posibl wrth herio safbwyntiau presennol. Y casgliad yw bod dull mwy seiliedig ar ddeialog yn gallu arwain at newidiadau dymunol mewn strategaethau mentora os yw mentoriaid (a oedd yn gadarnhaol am y dull gweithredu ar y cyfan) yn neilltuo mwy o amser i sgyrsiau agored am ddysgu ac yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol.

Mae Goodall yn archwilio'r cysyniad o ymgysylltiad rhieni a gwaith Epstein yn y maes hwn. Er ei fod yn un o sawl model, a thros 25 oed, mae model Epstein o ymgysylltiad rhieni'n dal i gael ei ddyfynnu'n eang ac yn dal i ddylanwadu ar bolisi. Mae Goodall yn herio agweddau ar y model hwn, yn enwedig y ffordd mae'n trin ymgysylltiad rhieni â dysgu plant fel rhywbeth heb gyd-destun sydd ddim yn ystyried gwahaniaethau rhwng cefndiroedd gwahanol deuluoedd. Mae hi'n cynnig fframwaith newydd: un gyda'r teulu'n ganolog iddo, nid yr ysgol; sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd; sy'n cefnogi dysgu ac ymarfer staff; sy'n ceisio sicrhau newid sylfaenol, nid arwynebol; sy'n symud o ymarfer i broses; ac sy'n cefnogi gwerthuso a blaengynllunio effeithiol. Daw Goodall i'r casgliad bod y model newydd hwn yn gynnig petrus ac y dylid ei wreiddio mewn datblygiadau a thrafodaethau parhaus yng nghymuned gyfan ysgol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai proses i'w byw yw ymgysylltiad rhieni, nid nod ynddo'i hun.

Rydym yn croesawu erthyglau mewn ffrydiau academaidd ac ymarferwyr ar gyfer rhifynnau'r dyfodol, gan gyfranwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Cysylltwch â'r golygyddion os hoffech drafod eich gwaith, ein trefn adolygu gan gynghreiriaid neu gyhoeddi eich gwaith.

## *Cyfeiriadau*

Beauchamp, Chapman, S., Risquez, A., Becaas, S., Ellis, C., Empsen, M., Farr, F., Hoskins, L., Hustinx, W., Murray, L., Palmaers, S., Spain, S., Timus, N.,

White, M., Whyte, S., a Young, N. (2022). 'Moving beyond the formal: developing significant networks and conversations in higher education: reflections from an interdisciplinary European project team'. *Teaching in Higher Education, ahead-of-print* (eto i'w argraffu), t. 1–17.

Beauchamp, G., Crick, T. A Thomas, E. (2021). Golygyddol, *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 23(1), t. 1–6, DOI: 10.16922/wje.23.1.1.

Furlong, J., Griffiths, J., Hannigan-Davies, C., Harris, A., a Jones, M. (2021). 'The reform of initial teacher education in Wales: from vision to reality'. *Oxford Review of Education*, 47(1), 61–78.

Llywodraeth Cymru (2021) *Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol: dogfen weledigaeth*. Ar gael yn *https://llyw.cymru/sites/default/files/pdfversions/2021/7/4/1626951868/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol-dogfen-weledigaeth.pdf* (Cyrchwyd ar 13.09.22)

Oancea, A., Fancourt, N., Robson, J., Thompson, I., Childs, A., a Nuseibeh, N. (2021). 'Research capacity-building in teacher education'. *Oxford Review of Education*, 47(1), t. 98–119.